Introduction

This document is a policy for the Arts in Education within the City and County of Swansea. It is the result of a consultative process and represents a shared vision through its development with a range of partners. The policy outlines a set of principles that demonstrates clearly why the arts are an important contribution to lifelong learning.

The City and County of Swansea recognises the power of the arts to excite and inspire learners to achieve fulfilment in their own lives.

Aims

In order to achieve lifelong learning in the arts The City and County of Swansea aims to:

- secure the arts as an integral part of education, making participation in the arts possible for all, not just through the formal education process but through accessible opportunities for lifelong learning
- place learning at the centre of arts activities and ensure arts provision that develops knowledge, skills, understanding and success for all
- stimulate and support activities, events and experiences in the arts through educational opportunities
- ensure that all children and young people have access to a full and meaningful education in the arts irrespective of race, culture, language, age, gender, disability or special educational needs
- seek proactive partnerships between arts practitioners, funding bodies, business, industry and other organisations to effectively support and enhance the arts in education

The Arts – a definition

The arts encompass music, visual art, dance, drama, literature, the broadcast arts, digital and multimedia. In their broadest sense they incorporate an ever increasing array of diverse activities.

Within this broad range of arts activity, the contribution of different styles and genres from Wales, as well as from a variety of other cultures and traditions, provides a rich stimulus for creativity.

Arts education allows for experiences and learning in three different roles:

- maker, writer, composer, choreographer
- performer
- audience and critic

Each of these roles demands different skills and contributes to an overall understanding of an art form.

Arts in Education – A Contribution to Learning

The arts provide ways of investigating, knowing, representing, presenting, emphasising, interpreting and symbolising and a context for appreciating and valuing.

Experience at all levels of the education system in The City and County of Swansea confirms research and findings, across Britain and abroad, that the provision of high quality education in and through the arts is a key factor in the successful learning of children and young people across the whole curriculum.

Involvement in the arts also increases the standing and image of the school in the eyes of the wider community. Schools are judged not just by their exam results but also, amongst other elements, by the quality of the provision of curricular and extra-curricular arts activities such as orchestral, theatre or dance performances. These contribute positively to the whole ethos and involvement of its pupils in the life of the school.

In a world where news, information and entertainment are increasingly provided through computer, television or other technical means, it is vital that pupils and students are taught to watch actively rather than be passive receivers. To develop an understanding of the processes by which the actions, pictures, words and sounds are organised is the most certain way of ensuring a critical, responsive and questioning audience.

The arts enrich the quality of our lives. They provide rewarding activities and allow us to explore our feelings, engage, increase our knowledge, develop our skills, and articulate and realise our aspirations.

Participation in the Arts

Participation in the arts contributes to the development of language and literacy, to the physical, personal and social development of the individual.

The arts:

- contribute towards emotional development in that they provide disciplined forms of inquiry and expression through which to explore and make sense of the world of emotions, feelings and ideas
- help contribute towards an understanding of our own culture and that of others
- naturally form the means through which values are questioned and reshaped
- in a quickly changing world provide a means by which we can reflect and consider
- allow the expression of ideas in a variety of ways using a range of media
- provide an important platform for creativity including self-expression, problem-solving and decision making
- develop individual talent which may help sustain private or professional lives
- can powerfully develop a sense of self, self-worth and self-esteem without which all learning is inhibited
- make a fundamental contribution to the development of key skills across the curriculum: communication, application of number, ICT, working with others, problem solving and improving own learning and performance
- can encourage extended learning and broaden horizons beyond the classroom

Lifelong Learning in the Arts

All children, young people and adults are entitled to receive full and meaningful lifelong access to education in the arts irrespective of race, culture, language, age, gender, disability or special educational needs.

- Exposure to and involvement in the arts when young equips children with a grounding which can be carried through into adult life, enabling them to continue to develop their artistic understanding as part of a continuum of lifelong learning
- The interest sparked early in a child's life, nurtured through childhood and youth provides key learning skills to use through to adulthood. This exposure to the arts will develop abilities to question, explore, collaborate, extend and develop one's ideas and the ideas of others. The creation of art requires a sense of structure, discipline, rigour and a positive response to challenge – all essential tools in today's society
- The arts provide enjoyment, fun and entertainment throughout life
- The arts enrich the lives of people in Wales promoting a strong sense of community. Through arts' processes we can understand more about our diverse cultural heritage and the unique contribution of the arts within the geographical area encompassed by the City and County of Swansea
- The arts mirror and allow people to reflect on the whole repertoire of human experience. It would be difficult to imagine a world with no drawing, music or literature, for example, and it would be rare to find any culture without these elements
- The arts in Britain are a booming industry; they are a major generator of employment. The performing and contemporary visual arts have a high annual turnover and enjoy a high profile abroad, being major earners for the country. The skills which the arts develop are exactly the skills which the business world increasingly values in today's workplace

Review and Evaluation

The review of the policy, its implementation and impact will be an ongoing process. This will enable changes to be made to the aims in order to meet changing circumstances as they arrive.

As developments with the arts take place, schools and community providers will reflect change and continuity.

There is always a need for:

- Evaluation of quality by developing appropriate criteria for arts education activities
- Monitoring of provision through evaluating process and product
- Sharing and celebration of effective practice

Professional Reference Group for the Arts in Education

The Professional Reference Group for the Arts in Education brings together professionals whose role it is to plan, monitor and evaluate arts policy and provision.

The group is made up of a representative range of partners principally those involved in arts provision within schools, colleges and the community.

The local education authority is committed to developing a wide range of partnerships with schools, colleges and other organisations. Recommendations generated during consultation with partner organisations will ensure the relevant of the policy and its implementation.

Supported by a grant from The Arts Council of Wales

CEFNOGI CREADIGRWYDD
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
THE ARTS COUNCIL OF WALES
SUPPORTING CREATIVITY

© The City and County of Swansea 2005

Photos: Linnea Larsson, David Symons

Review and Consultation

The Arts Policy is reviewed regularly with a main review every three years. The policy can be reviewed sooner if there is a need to respond to major changes.

This policy has been written by the Professional Reference Group for the Arts:

Group Co-ordinator

Carolyn Davies	Teacher Adviser and Co-ordinator for The Arts, City & County of Swansea

Group Members

Lynne Bebb	City & County of Swansea, Arts in Education, Artist in Residence
Derek Cobley	ACTS - Arts Collaboration
Sue Mortimer	Senior Lecturer in Music Education, SIHE
Phil Emanuel	West Glamorgan Music Service
Dave Woolley	Literature Officer, City & County of Swansea
Robin Hall	Arts Development Officer, City & County of Swansea
Deb Whife	EMLAS
Alison Jenner	Life Long Learning Service
Alison Jenkins	Headteacher, Penclawdd Primary School
Ruth Prosser	Head of Performing Arts, Gorseinon College
Katharine Rowe	Children and Young People Development Representative
Jenny Heusch	Teacher Adviser SEN (Speech & Language)
Alistair Duncan	Artist
Keith Bayliss	Artist
Marilyn Griffiths	Artist (Welsh Language)
Penny Ryan	Music Consultant
Margaret James	Headteacher, Whitestone Primary School
Dawn Phillips	Deputy Headteacher, Whitestone Primary School
Alison Sykes	Head of Art and Design, Bishopston Comprehensive School
Tania Morgan	Art Co-ordinator, Blaenymaes Primary School

We would like to acknowledge the contribution of founder members of the Professional Reference Group along with a wide range of education and arts professionals in schools, colleges and the wider community.

A Policy for the Arts in Education for the City and County of Swansea

Arts in Education
Celfyddydau mewn Addysg

The City and County of Swansea is committed to making the arts open to all by giving children, young people and adults the opportunity to enjoy them at every level

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn bolisi'r Celfyddydau mewn Addysg o fewn Dinas a Sir Abertawe. Mae'n ganlyniad proses ymgynghorol ac mae'n cynrychioli gweledigaeth a rennir drwy ei datblygu gydag amrywiaeth o bartneriaid. Mae'r polisi'n amlinellu set o egwyddorion sy'n dangos yn glir pam mae'r celfyddydau'n gyfraniad pwysig at ddysgu gydol oes.

Mae Dinas a Sir Abertawe'n cydnabod gallu'r celfyddydau i ysgogi ac ysbrydoli dysgwyr i gyflawni boddhad yn eu bywydau eu hunain.

NODAU

Er mwyn cyflawni dysgu gydol oes yn y celfyddydau, mae Dinas a Sir Abertawe'n anelu at:

- sicrhau'r celfyddydau fel rhan integredig o addysg, gan wneud cyfranogi yn y celfyddydau'n bosib i bawb, nid yn unig drwy'r broses addysgu ffurfiol ond drwy gyfleoedd dysgu gydol oes hygyrch
- gosod dysgu yng nghanol gweithgareddau celfyddydol a sicrhau darpariaeth gelfyddydol sy'n datblygu gwybodaeth, sgiliau, dealltwriaeth a llwyddiant i bawb
- ysgogi a chefnogi gweithgareddau, digwyddiadau a phrofiadau yn y celfyddydau drwy gyfleoedd addysgol
- sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc fynediad i addysg lawn ac ystyrlon yn y celfyddydau, waeth beth yw ei hil, ei ddiwylliant, ei iaith, ei oedran, ei ryw, ei anabledd neu'i anghenion addysgol arbennig
- ceisio partneriaethau rhagweithiol rhwng ymarferwyr y celfyddydau, cyrff ariannu, busnes, diwydiant a sefydliadau eraill er mwyn cynnal a gwella'r celfyddydau mewn addysg yn effeithiol

Y Celfyddydau – diffiniad

Mae'r celfyddydau'n cynnwys cerddoriaeth, celf weledol, dawns, drama, llenyddiaeth, celfyddydau a ddarlledir, digidol ac amlgyfrwng. Yn yr ystyr ehangaf maen nhw'n ymgorffori amrywiaeth cynyddol o weithgareddau gwahanol

O fewn yr amrywiaeth eang hwn o weithgareddau celfyddydol, mae cyfraniad arddulliau a genres gwahanol o Gymru, ynghyd ag amrywiaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill, yn darparu symbyliad cyfoethog ar gyfer creadigrwydd.

Mae addysg gelfyddydol yn darparu profiadau a dysgu mewn tair rôl wahanol:

- gwneuthurwr, ysgrifennwr, cyfansoddwr, coreograffydd
- perfformiwr
- cynulleidfa a beirniad

Mae pob un o'r rolau hyn yn gofyn am sgiliau gwahanol ac maent yn cyfrannu at ddealltwriaeth gyffredinol o ffurf gelfyddydol.

Celfyddydau mewn Addysg - Cyfrannu at Ddysgu

Mae'r celfyddydau'n darparu ffyrdd o ymchwilio, gwybod, cynrychioli, cyflwyno, pwysleisio, dehongli a symboleiddio, a chyd-destun ar gyfer gwerthfawrogi a gosod gwerth.

Mae profiad ar bob lefel o fewn y system addysg yn Ninas a Sir Abertawe yn cadarnhau ymchwil a chanfyddiadau ar draws Prydain a thramor, bod darpariaeth o safon uchel yn a thrwy'r celfyddydau'n ffactor allweddol o ran dysgu plant a phobl ifanc yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm cyfan.

Mae ymwneud â'r celfyddydau hefyd yn codi statws a delwedd yr ysgol yn llygaid y gymuned ehangach. Bernir ysgolion nid yn unig yn ôl eu canlyniadau arholiad ond hefyd, ymhlith elfennau eraill, yn ôl ansawdd y gweithgareddau celfyddydol cwricwlaidd ac allgyrsiol a ddarperir, fel perfformiadau cerddorfaol, theatr neu ddawns. Mae'r rhain yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr ethos cyfan a chyfranogiad ei disgyblion ym mywyd yr ysgol.

Mewn byd lle darperir newyddion, gwybodaeth ac adloniant yn gynyddol drwy gyfrifiadur, teledu neu ddull technegol arall, mae'n hanfodol bod disgyblion a myfyrwyr yn cael eu dysgu i wylio'n weithredol yn hytrach na bod yn dderbynyddion goddefol. Datblygu dealltwriaeth o'r prosesau sy'n trefnu'r gweithrediadau, lluniau, geiriau a seiniau yw'r ffordd fwyaf sicr o sicrhau cynulleidfa feirniadol, ymatebol a chwilfrydig.

Mae'r celfyddydau'n cyfoethogi ansawdd ein bywydau. Maent yn darparu gweithgareddau gwobrwyol ac yn rhoi cyfle i ni archwilio ein teimladau, cyfranogi, cynyddu ein gwybodaeth, datblygu ein sgiliau, a mynegi a gwireddu ein dyheadau.

Cyfranogi yn y Celfyddydau

Mae cyfranogi yn y celfyddydau'n cyfrannu at ddatblygu iaith a llythrennedd, at ddatblygiad corfforol, personol a chymdeithasol yr unigolyn.

Mae'r celfyddydau'n:

- cyfrannu at ddatblygiad emosiynol am eu bod yn darparu ffurfiau disgybledig ar ymholi a mynegi y gellir archwilio a gwneud synnwyr o fyd emosiynau, teimladau a syniadau drwyddynt
- helpu i gyfrannu at ddealltwriaeth o'n diwylliant ein hunain a diwylliannau pobl eraill
- ffurfio'n naturiol fodd o gwestiynu ac ail-lunio gwerthoedd
- darparu modd o fyfyrio ac ystyried mewn byd sy'n newid yn gyflym
- caniatáu i syniadau gael eu mynegi mewn amrywiaeth o ffyrdd gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau
- darparu llwyfan pwysig ar gyfer creadigrwydd gan gynnwys hunanfynegiant, datrys problemau a gwneud penderfyniadau
- datblygu dawn unigol a allai helpu i gynnal bywyd preifat neu broffesiynol
- gallu datblygu'n rymus synnwyr o'r hunan, o hunanwerth a hunan-barch, yr amherir ar ddysgu o unrhyw fath hebddynt
- gwneud cyfraniad sylfaenol at ddatblygiad sgiliau allweddol ar draws y cwricwlwm: cyfathrebu, cymhwyso rhif, TGCh, gweithio gyda phobl eraill, datrys problemau a gwella dysgu a pherfformiad personol
- gallu cymell dysgu estynedig ac ehangu gorwelion y tu hwnt i'r dosbarth

Dysgu Gydol Oes yn y Celfyddydau

Mae hawl gan bob plentyn, person ifanc ac oedolyn i dderbyn mynediad gydol oes llawn ac ystyrlon i addysg yn y celfyddydau, waeth beth yw ei hil, ei ddiwylliant, ei iaith, ei oedran, ei ryw, ei anabledd neu ei anghenion addysgol arbennig.

- Mae profi a chymryd rhan yn y celfyddydau yn gynnar mewn bywyd yn rhoi sylfaen i blant nes iddynt dyfu'n oedolyn, gan eu galluogi i barhau i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r celfyddydau fel rhan o gontinwwm dysgu gydol oes
- Mae'r diddordeb sy'n cael ei sbarduno yn gynnar ym mywyd plentyn, ei feithrin drwy blentyndod a ieuenctid yn darparu sgiliau dysgu allweddol i'w defnyddio tan iddynt dyfu'n oedolyn. Mae'r profiad hwn o'r celfyddydau yn datblygu'r gallu i gwestiynu, archwilio, cydweithio a datblygu syniadau personol a syniadau pobl eraill. Mae creu celf yn gofyn am synnwyr o strwythur, disgyblaeth, cywirdeb ac ymateb cadarnhaol i her – sydd i gyd yn offer hanfodol yng nghymdeithas heddiw
- Mae'r celfyddydau'n darparu mwynhad, hwyl ac adloniant drwy gydol oes
- Mae'r celfyddydau'n cyfoethogi bywydau pobl yng Nghymru, gan hyrwyddo synnwyr cryf o gymuned. Drwy brosesau celfyddydol rydym yn gallu deall mwy am ein treftadaeth ddiwylliannol amrywiol a chyfraniad unigryw'r celfyddydau o fewn ardal ddaearyddol Dinas a Sir Abertawe
- Mae'r celfyddydau'n adlewyrchu ac yn galluogi pobl i fyfyrio ar amrywiaeth cyfan y profiad dynol. Byddai'n anodd dychmygu byd heb ddarlunio, cerddoriaeth neu lenyddiaeth, er enghraifft, a byddai'n anarferol iawn dod o hyd i ddiwylliant heb yr elfennau hyn
- Mae'r celfyddydau ym Mhrydain yn ddiwylliant ffyniannus; yn un o gynhyrchwyr mwyaf cyflogaeth. Mae gan y celfyddydau perfformio a gweledol cyfoes drosiant blynyddol uchel ac mae ganddynt broffil uchel dramor, am eu bod yn ennill llawer o arian i'r wlad. Y sgiliau y mae'r celfyddydau'n eu datblygu yw'r union sgiliau y mae byd eu busnes yn gwerthfawrogi'n gynyddol bellach yn y gweithle

Adolygu a Gwerthuso

Bydd adolygiad y polisi, ei weithredu a'i ddylanwad yn broses barhaol. Bydd hyn yn galluogi i newidiadau gael eu gwneud i'r amcanion er mwyn diwallu amgylchiadau sy'n newid wrth iddynt gyrraedd.

Wrth i ddatblygiadau ddigwydd gyda'r celfyddydau, bydd ysgolion a darparwyr cymunedol yn adlewyrchu newid a dilyniant.

Mae angen bob amser am y canlynol:

- Gwerthuso ansawdd drwy ddatblygu meini prawf priodol ar gyfer gweithgareddau addysgol yn y celfyddydau
- Monitro darpariaeth drwy werthuso'r broses a'r cynnyrch
- Rhannu a dathlu arfer effeithiol

Grŵp Cyfeirio Proffesiynol ar gyfer y Celfyddydau mewn Addysg

Mae'r Grŵp Cyfeirio Proffesiynol ar gyfer y Celfyddydau mewn Addysg yn dod â phobl broffesiynol ynghyd, a'u rôl yw cynllunio, monitro a gwerthuso polisi a darpariaeth gelfyddydol.

Mae'r Grŵp yn cynnwys amrediad cynrychiadol o bartneriaid, yn bennaf y rhai sy'n ymwneud â darpariaeth gelfyddydol mewn ysgolion, colegau a'r gymuned.

Mae'r awdurdod addysg lleol wedi ymrwymo i ddatblygu amrediad eang o bartneriaethau gydag ysgolion, colegau a sefydliadau eraill. Bydd yr argymhellion a gynhyrchwyd wrth ymgynghori â sefydliadau partner yn sicrhau perthnasedd y polisi a'i weithrediad.

Cefnogir gan grant Cyngor Celfyddydau Cymru

CEFNOGI CREADIGRWYDD
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
THE ARTS COUNCIL OF WALES
SUPPORTING CREATIVITY

© Dinas a Sir Abertawe 2004

Photos: Linnea Larsson, David Symons

Adolygu ac Ymgynghori

Caiff y Polisi Celfyddydau ei adolygu'n rheolaidd gyda phrif adolygiad pob tair blynedd. Gellir adolygu'r polisi'n fwy buan os oes angen ymateb i newidiadau mawr.

Ysgrifennwyd y polisi hwn gan y Grŵp Cyfeirio Proffesiynol ar gyfer y Celfyddydau:

Cydlynydd y Grŵp

Carolyn Davies	Athrawes Ymgynghorol a Chydlynydd ar gyfer y Celfyddydau, Dinas a Sir Abertawe

Aelodau'r Grŵp

Lynne Bebb	Dinas a Sir Abertawe, Celfyddydau mewn Addysg, Artist Preswyl
Derek Cobley	ACTS – Cydweithio yn y Celfyddydau
Sue Mortimer	Uwch-ddarlithydd mewn Addysg Gerddorol, Athrofa Abertawe
Phil Emanuel	Gwasanaeth Cerdd Gorllewin Morgannwg
Dave Woolley	Swyddog Llenyddiaeth, Dinas a Sir Abertawe
Robin Hall	Swyddog Datblygu'r Celfyddydau, Dinas a Sir Abertawe
Deb Whife	EMLAS
Alison Jenner	Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes
Alison Jenkins	Pennaeth, Ysgol Gynradd Penclawdd
Ruth Prosser	Pennaeth y Celfyddydau Perfformio, Coleg Gorseinon
Katharine Rowe	Cynrychiolydd Datblygu Plant a Phobl Ifanc
Jenny Heusch	Athrawes Ymgynghorol AAA (Iaith a Lleferydd)
Alistair Duncan	Artist
Keith Bayliss	Artist
Marilyn Griffiths	Artist (Iaith Gymraeg)
Penny Ryan	Ymgynghorydd Cerdd
Margaret James	Pennaeth Ysgol Gynradd y Garreg Wen
Dawn Phillips	Dirprwy Bennaeth Ysgol Gynradd y Garreg Wen
Alison Sykes	Pennaeth Celf a Dylunio, Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt
Tania Morgan	Cydlynydd Celf, Ysgol Gynradd Blaenymaes

Hoffem gydnabod cyfraniad yr aelodau a sefydlodd y Grŵp Cyfeirio Proffesiynol ynghyd ag amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol addysg a chelfyddydol mewn ysgolion, colegau a'r gymuned ehangach.

Polisi'r Celfyddydau mewn Addysg ar gyfer Dinas a Sir Abertawe

Arts in Education
Celfyddydau mewn Addysg

Mae Dinas a Sir Abertawe wedi ymrwymo i sicrhau fod y celfyddydau ar gael i bawb drwy roi cyfle i blant, pobl ifanc ac oedolion eu mwynhau ar bob lefel.